# Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EqIA)

Mae'r ddogfen yma yn bodloni gofynion yr ICO ar gynnal Asesiadau o’r Effaith ar Gydraddoldeb, fel un o’r gofynion i roi sylw priodol iddyn nhw o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, Adran 75 o Ddeddf Gogledd Iwerddon 1998 a dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus. Mae'r ddogfen yma yn eich helpu i asesu perthnasedd cydraddoldeb polisi neu weithdrefn i un neu fwy o grwpiau o bobl sydd â nodweddion gwarchodedig. Mae canllawiau ar gael hefyd ar gyfer Asesiadau o’r Effaith ar Gydraddoldeb (EqIAs), ynghyd â rhestr o faterion i'w hystyried. Diben EqIA yw sicrhau bod materion cydraddoldeb yn cael eu nodi a'u lliniaru. Bwriad y canllawiau a'r dogfennau 'materion i'w hystyried' yw helpu yn hyn o beth, ond nid yw’r rhain yn disodli ymgynghori â phobl sydd â phrofiad byw o unrhyw un neu ragor o'r nodweddion gwarchodedig. Gan hynny, lle bynnag y bo’n briodol, dylech ymgynghori â'r rhwydweithiau staff EDI perthnasol neu gydweithwyr eraill i drafod effeithiau posibl.

Rhaid ichi ddarllen y canllawiau a'r rhestr o faterion i'w hystyried cyn cwblhau'r ddogfen.

Ar ôl eu cwblhau, bydd EqIAs yn cael eu cyhoeddi ar wefan yr ICO.

## Crynodeb

| |
|---|
| **Wedi’i baratoi gan:** CH, AF |

| |
|---|
| **Beth yw teitl y darn yma o waith?** Dull yr ICO o ymdrin â chwynion diogelu data. |

**Disgrifiwch ddiben cyffredinol y gwaith yma yn fyr.**

Rydyn ni wedi newid sut rydyn ni'n ymdrin â chwynion fel rhan o'n hymdrechion parhaus i wella'n prosesau a sicrhau y defnydd mwyaf effeithiol o'n hadnoddau. Mae ein dull newydd yn canolbwyntio ar achosion lle mae'n amlwg bod yna niwed difrifol a lle gallwn helpu sefydliadau i wella sut maen nhw'n diogelu data pobl trwy gyngor, hyfforddiant neu weithredu.

Rydyn ni wedi dylunio [fframwaith trin cwynion diogelu data], sy'n cynnwys y meini prawf ar gyfer pryd y byddwn ni'n edrych ar gŵyn, er mwyn:

- bod yn dryloyw ynglŷn â sut a pham rydyn ni'n gwneud penderfyniadau;
- rhoi strwythur a chefnogaeth inni pan fyddwn ni'n ystyried y gwahanol fathau o gwynion sy'n dod i law; a hefyd
- ein helpu i fod mor gyson â phosibl, gan roi'r hyblygrwydd inni ddefnyddio'n barn yr un pryd.

Mae ein ffurflen gwyno yn gofyn ichi roi'r wybodaeth sydd ei hangen arnom, gan gynnwys unrhyw niwed rydych chi wedi'i brofi oherwydd y mater diogelu data rydych chi'n cwyno amdano. Rydyn ni'n defnyddio'n barn ac yn asesu niwed ar [raddfa] o effaith isel i effaith lefel uchel i'n helpu i flaenoriaethu cwynion.

## Cwestiynau sgrinio cychwynnol

C1. Ydy'r gwaith yma yn ymwneud â pholisi, gweithdrefn, arfer gwaith i'r ICO neu unrhyw beth sy'n debyg yn fras? Mae hyn yn cynnwys polisïau cyfredol a pholisïau newydd sy'n cael eu datblygu.

| |
|---|
| Atebwch Ydy neu Nac ydy.<br>**Ydy** |

*Os byddwch chi'n ateb **Nac ydy** i'r cwestiwn yma, efallai na fydd angen ichi gwblhau EqIA.*

C2. Ydy’r gwaith yma yn ymwneud ag esboniad o'r deddfau y mae'r ICO yn eu rheoleiddio, neu benderfyniadau i ddefnyddio neu beidio â defnyddio unrhyw un neu ragor o'n pwerau rheoleiddio (e.e. cosbau ariannol, hysbysiadau gorfodi, hysbysiadau gwybodaeth etc)?

| |
|---|
| Atebwch Ydy neu Nac ydy.<br>**Ydy** |

*Os byddwch chi'n ateb **Nac ydy** i'r cwestiwn yma, efallai na fydd angen ichi gwblhau EqIA.*

Os ydych chi wedi ateb nac ydy i C1 a C2, yr arfer orau yw rhesymoli pam nad oes unrhyw effeithiau negyddol i bob nodwedd warchodedig yn y tabl isod.

## Effaith ar bobl sydd â nodweddion gwarchodedig

C3. Ar gyfer pob un o'r nodweddion gwarchodedig, dylech ystyried a oes unrhyw **effeithiau cadarnhaol** i bobl â phob nodwedd a nodi'r rheiny yn y tabl isod. Os ydych chi'n credu bod unrhyw **effeithiau negyddol**, nodwch y rheiny yn y tabl isod **ac** esboniwch sut y byddwch chi'n lliniaru'r effeithiau hynny'n llawn. Yr arfer orau yw cynnwys tri mesur lliniaru i bob effaith negyddol. Dim ond gydag o leiaf dau fesur lliniaru y gellir cymeradwyo’r ddogfen. Os ydych chi'n credu nad oes dim effaith, esboniwch pam rydych chi'n credu hynny.

---

Adolygwyd yr EqIA yma yn dilyn ymatebion i ymgynghoriad diweddar ac rydyn ni’n hyderus ein bod eisoes wedi ystyried pobl a allai fod yn agored i niwed – er enghraifft, pobl a allai fod yn wynebu risg arbennig, pobl sydd angen cymorth ychwanegol i’w hamddiffyn eu hunain, neu'r ddau.

| Nodwedd warchodedig | Ydy hi’n debygol o gael effaith benodol ar bobl sydd â'r nodwedd yma? | Rhestrwch y mesurau lliniaru a gynigir ar gyfer pob effaith, gan nodi a fydd yr effaith yn cael ei lleihau ynteu ei ddileu. Nodwch amserlen arfaethedig ar gyfer y mesurau lliniaru. |
|---|---|---|
| **Crefydd neu gred** | Niwtral - ni fyddai dim effaith negyddol ar bobl oherwydd eu cefndir crefyddol neu eu cred. | Dim effaith. |
| **Hil, cenedligrwydd neu gefndir diwylliannol** | Niwtral – ni fyddai dim effaith negyddol ar bobl oherwydd eu hil, eu cenedligrwydd neu eu cefndir diwylliannol. Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) (Cymru a Lloegr), Cyfrifiad yr Alban, ac Asiantaeth Ystadegau ac Ymchwil Gogledd Iwerddon, yn cofnodi mai canran fach o bobl yn y Deyrnas Unedig sydd heb Gymraeg neu Saesneg yn brif iaith. Mae gennyn ni gamau ar waith eisoes i leihau effaith rhwystrau iaith megis:<br>• cynnig gwasanaeth cyfieithu Language Line. Mae hyn yn helpu i ddarparu gwybodaeth glir yn newis iaith yr achwynydd dros y ffôn;<br>• derbyn cwynion a ysgrifennwyd yn newis iaith yr achwynydd. I wneud hyn, rydyn ni’n cymryd camau i | Byddem yn lliniaru ymhellach ar yr effaith a geid ar grwpiau ethnig sydd ag ymgysylltiad digidol cyfyngedig trwy wneud y canlynol:<br>• creu fersiwn copi caled o'r ffurflen gwyno ar-lein bresennol. Byddai hyn yn rhoi cyfle i achwynwyr nad ydyn nhw’n defnyddio’r cyfrwng digidol ddarparu'r un lefel o wybodaeth â phobl sy'n defnyddio’n ffurflen gwyno ar-lein. Byddai'r copi caled ar gael i staff sy'n derbyn cwynion dros ein llinell gymorth, yn ogystal ag i bobl sy'n gofyn am ffurflen copi caled; a<br>• sicrhau bod staff yn ystyried y niwed posibl a thebygol a achosir gan y mater diogelu data, yn enwedig pan fo |

| Nodwedd warchodedig | Ydy hi’n debygol o gael effaith benodol ar bobl sydd â'r nodwedd yma? | Rhestrwch y mesurau lliniaru a gynigir ar gyfer pob effaith, gan nodi a fydd yr effaith yn cael ei lleihau ynteu ei ddileu. Nodwch amserlen arfaethedig ar gyfer y mesurau lliniaru. |
|---|---|---|
| | adnabod aelod o staff sydd â'r sgiliau cyfieithu angenrheidiol;<br>• derbyn cwynion a gyflwynir trwy wahanol sianeli fel ein ffurflen gwyno ar-lein, ebost, post, a thros y ffôn;<br>• derbyn cwynion a gyflwynir gan berson ar ran rhywun arall cyn belled â bod ganddyn nhw’r awdurdod i wneud hynny, er enghraifft cydsyniad neu Atwrneiaeth (POA);<br>• defnyddio iaith glir wrth gyfathrebu â phobl yn uniongyrchol, a hefyd gyda'n negeseuon gwefan.<br>Byddai'r camau hyn yn dal ar waith o dan y cynigion newydd.<br>Mae ['Exploring the UK's digital divide'](#) gan yr SYG yn nodi bod ymgysylltu digidol a mynediad i'r rhyngrwyd yn amrywio ar draws grwpiau ethnig, ac o ganlyniad, gallai hyn | gwybodaeth sy'n gysylltiedig â niwed wedi'i hepgor o'r gŵyn. |

| Nodwedd warchodedig | Ydy hi'n debygol o gael effaith benodol ar bobl sydd â'r nodwedd yma? | Rhestrwch y mesurau lliniaru a gynigir ar gyfer pob effaith, gan nodi a fydd yr effaith yn cael ei lleihau ynteu ei ddileu. Nodwch amserlen arfaethedig ar gyfer y mesurau lliniaru. |
|---|---|---|
| | effeithio ar sut mae gwahanol grwpiau yn rhyngweithio â'n proses gwyno. Gall grwpiau o bobl sydd wedi'u datgysylltu'n ddigidol fod yn debycach o gyflwyno'u cwyn trwy ddulliau anffurfiol neu anstrwythuredig (ebost, post, ffôn) a hepgor gwybodaeth allweddol sy'n gysylltiedig â niwed. Ar y llaw arall, gofynnir i bobl sy'n defnyddio'n ffurflen gwyno ar-lein ddarparu manylion am y niwed a achosir gan y mater diogelu data. Gan mai niwed yw un o'r meini prawf a restrir yn y fframwaith drafft, gellid asesu cwynion sydd heb eu strwythuro yn wahanol i gwynion strwythuredig. | |
| **Pobl anabl** | Niwtral - ni fyddai dim effaith negyddol ar bobl anabl.<br><br>Mae gennyn ni gamau ar waith eisoes i sicrhau bod ein proses gwyno yn hygyrch i bobl anabl. Mae'r camau hyn yn cynnwys: | Byddem yn lliniaru ymhellach ar yr effaith a geid ar grwpiau ethnig sydd ag ymgysylltiad digidol cyfyngedig trwy wneud y canlynol:<br><br>• creu fersiwn copi caled o'r ffurflen gwyno ar-lein bresennol. Byddai hyn yn rhoi cyfle i achwynwyr nad ydyn nhw'n |

| Nodwedd warchodedig | Ydy hi’n debygol o gael effaith benodol ar bobl sydd â'r nodwedd yma? | Rhestrwch y mesurau lliniaru a gynigir ar gyfer pob effaith, gan nodi a fydd yr effaith yn cael ei lleihau ynteu ei ddileu. Nodwch amserlen arfaethedig ar gyfer y mesurau lliniaru. |
|---|---|---|
| | • derbyn cwynion a gyflwynir trwy wahanol sianeli fel ein ffurflen gwyno ar-lein, ebost, post, a dros y ffôn;<br>• derbyn cwynion a gyflwynir gan berson ar ran rhywun arall cyn belled â bod ganddyn nhw’r awdurdod i wneud hynny, er enghraifft cydsyniad neu atwrneiaeth;<br>• cynnig gwasanaeth di-dâl BT, Relay UK, i bobl sy'n fyddar, neu sydd â nam ar eu clyw neu eu lleferydd;<br>• ystyried gweithredu addasiadau gwasanaeth yn unol â'n cyfrifoldebau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010;<br>• ymgorffori cwestiynau dewisol am gymorth ac addasiadau ychwanegol i ni eu gwneud, yn ogystal â niwed a achosir gan y mater diogelu data yn ein ffurflen gwyno; | defnyddio’r cyfrwng digidol ddarparu'r un lefel o wybodaeth â phobl sy'n defnyddio’n ffurflen gwyno ar-lein. Byddai'r copi caled ar gael i staff sy'n derbyn cwynion dros ein llinell gymorth, yn ogystal ag i bobl sy'n gofyn am ffurflen copi caled; a<br>• sicrhau bod staff yn ystyried y niwed posibl a thebygol a achosir gan y mater diogelu data, yn enwedig pan fo gwybodaeth sy'n gysylltiedig â niwed wedi'i hepgor o'r gŵyn. |

| Nodwedd warchodedig | Ydy hi’n debygol o gael effaith benodol ar bobl sydd â'r nodwedd yma? | Rhestrwch y mesurau lliniaru a gynigir ar gyfer pob effaith, gan nodi a fydd yr effaith yn cael ei lleihau ynteu ei ddileu. Nodwch amserlen arfaethedig ar gyfer y mesurau lliniaru. |
|---|---|---|
| | • darparu gwybodaeth am hysbysiad preifatrwydd ar-lein yr ICO, ac o fewn polisïau ar-lein eraill, am hygyrchedd ein proses gwyno a'n gwefan; a<br>• defnyddio iaith glir wrth gyfathrebu â phobl yn uniongyrchol, a hefyd gyda'n negeseuon gwefan.<br><br>Byddai'r camau hyn yn dal ar waith o dan y cynigion newydd.<br><br>Mae ymchwil Ofcom ar ddefnyddwyr anabl, mynediad at ddyfeisiau a gwasanaethau cyfathrebu a defnyddio’r rheiny yn dangos bod gan bobl ag anableddau symudedd ac anableddau dysgu gyfraddau uwch o ddatgysylltiad digidol a mynediad i'r rhyngrwyd na phobl sydd heb yr anableddau hyn. Gall grwpiau o bobl sydd wedi'u datgysylltu'n ddigidol fod yn debycach o gyflwyno’u cwyn trwy ddulliau anffurfiol neu anstrwythuredig (ebost, post, ffôn) a hepgor | |

| Nodwedd warchodedig | Ydy hi’n debygol o gael effaith benodol ar bobl sydd â'r nodwedd yma? | Rhestrwch y mesurau lliniaru a gynigir ar gyfer pob effaith, gan nodi a fydd yr effaith yn cael ei lleihau ynteu ei ddileu. Nodwch amserlen arfaethedig ar gyfer y mesurau lliniaru. |
|---|---|---|
| | gwybodaeth allweddol sy'n gysylltiedig â niwed. Ar y llaw arall, gofynnir i bobl sy'n defnyddio’n ffurflen gwyno ar-lein ddarparu manylion am y niwed a achosir gan y mater diogelu data. Gan mai niwed yw un o'r meini prawf a restrir yn y fframwaith drafft, gellid asesu cwynion sydd heb eu strwythuro yn wahanol i gwynion strwythuredig. | |
| **Cyfeiriadedd rhywiol** | Niwtral – ni fyddai dim effaith niweidiol ar neb oherwydd cyfeiriadedd rhywiol. | Dim effaith. |
| **Rhyw (gweler nodyn 1)** | Niwtral – ni fyddai dim effaith niweidiol ar neb oherwydd rhyw. | Dim effaith. |
| **Oedran** | Niwtral – ni fyddai dim effaith niweidiol ar neb oherwydd oedran.<br><br>Mae gennyn ni gamau ar waith eisoes i sicrhau bod ein proses gwyno yn hygyrch i wahanol grwpiau oedran. Mae'r camau hyn yn cynnwys: | Byddem yn lliniaru ymhellach ar yr effaith a geid ar grwpiau ethnig sydd ag ymgysylltiad digidol cyfyngedig trwy wneud y canlynol:<br><br>• creu fersiwn copi caled o'r ffurflen gwyno ar-lein bresennol. Byddai hyn yn rhoi cyfle i achwynwyr nad ydyn nhw’n defnyddio’r cyfrwng digidol ddarparu'r |

| Nodwedd warchodedig | Ydy hi’n debygol o gael effaith benodol ar bobl sydd â'r nodwedd yma? | Rhestrwch y mesurau lliniaru a gynigir ar gyfer pob effaith, gan nodi a fydd yr effaith yn cael ei lleihau ynteu ei ddileu. Nodwch amserlen arfaethedig ar gyfer y mesurau lliniaru. |
|---|---|---|
| | • derbyn cwynion a gyflwynir trwy wahanol sianeli fel ein ffurflen gwyno ar-lein, ebost, post, a thros y ffôn;<br>• derbyn cwynion a gyflwynir gan berson ar ran rhywun arall cyn belled â bod ganddyn nhw’r awdurdod i wneud hynny, er enghraifft cydsyniad neu atwrneiaeth. Rydyn ni hefyd yn ystyried a oes gan y person sy'n destun y gŵyn y cymhwysedd i ddeall a chydsynio drostynt eu hunain. Mae hyn yn cael ei ystyried mewn perthynas â phobl ond yn enwedig plant; a<br>• blaenoriaethu cwynion gan bobl ifanc.<br>Byddai'r camau hyn yn dal ar waith o dan y cynigion newydd.<br>Mae briffiad Age UK ar gynhwysiant digidol a phobl hŷn yn nodi nad yw 18% o bobl dros 65 oed yn defnyddio'r rhyngrwyd, gwelodd Ofcom nad oedd gan 12% o bobl rhwng 11 a | un lefel o wybodaeth â phobl sy'n defnyddio’n ffurflen gwyno ar-lein. Byddai'r copi caled ar gael i staff sy'n derbyn cwynion dros ein llinell gymorth, yn ogystal ag i bobl sy'n gofyn am ffurflen copi caled; a<br>• sicrhau bod staff yn ystyried y niwed posibl a thebygol a achosir gan y mater diogelu data, yn enwedig pan fo gwybodaeth sy'n gysylltiedig â niwed wedi'i hepgor o'r gŵyn. |

| Nodwedd warchodedig | Ydy hi’n debygol o gael effaith benodol ar bobl sydd â'r nodwedd yma? | Rhestrwch y mesurau lliniaru a gynigir ar gyfer pob effaith, gan nodi a fydd yr effaith yn cael ei lleihau ynteu ei ddileu. Nodwch amserlen arfaethedig ar gyfer y mesurau lliniaru. |
|---|---|---|
| | 18 oed fynediad at y rhyngrwyd ar gyfrifiadur neu lechen. Gall grwpiau o bobl sydd wedi'u datgysylltu'n ddigidol fod yn debycach o gyflwyno’u cwyn trwy ddulliau anffurfiol neu anstrwythuredig (ebost, post, ffôn) a hepgor gwybodaeth allweddol sy'n gysylltiedig â niwed. Ar y llaw arall, gofynnir i bobl sy'n defnyddio’n ffurflen gwyno ar-lein ddarparu manylion am y niwed a achosir gan y mater diogelu data. Gan mai niwed yw un o'r meini prawf a restrir yn y fframwaith drafft, gellid asesu cwynion sydd heb eu strwythuro yn wahanol i gwynion strwythuredig.<br><br>Mae ymchwil gan Gymdeithas y Plant, ac adroddiadau Adrienne Katz a Dr Aiman El Asam ar 'Refuge and Risk: Life Online for Vulnerable Young People', 'Vulnerable Young People and Their Experience of Online Risks', a 'Vulnerable Children in a Digital World', yn dangos bod gan bobl ifanc agored i niwed, rhwng 10 a 17 oed, risg uwch o gael niwed | |

| Nodwedd warchodedig | Ydy hi’n debygol o gael effaith benodol ar bobl sydd â'r nodwedd yma? | Rhestrwch y mesurau lliniaru a gynigir ar gyfer pob effaith, gan nodi a fydd yr effaith yn cael ei lleihau ynteu ei ddileu. Nodwch amserlen arfaethedig ar gyfer y mesurau lliniaru. |
|---|---|---|
| | ar-lein. Er y gallen nhw gael trafferth mynegi'r niwed a achosir, maen nhw'n gallu mynegi eu bregusrwydd. Defnyddiodd yr ymchwil y term 'grwpiau agored i niwed' i olygu'r pum grŵp canlynol:<br>• gwendidau teuluol, megis bod yn ofalwr ifanc, byw mewn gofal neu boeni am fywyd gartref;<br>• anawsterau cyfathrebu, megis colli clyw, anhawster lleferydd, colli golwg neu Saesneg fel ail iaith;<br>• anawsterau corfforol, megis salwch ers tro byd, anawsterau golwg neu anabledd corfforol;<br>• anghenion addysgol arbennig, megis anawsterau dysgu, awtistiaeth neu anghenion ychwanegol eraill; a | |

| Nodwedd warchodedig | Ydy hi’n debygol o gael effaith benodol ar bobl sydd â'r nodwedd yma? | Rhestrwch y mesurau lliniaru a gynigir ar gyfer pob effaith, gan nodi a fydd yr effaith yn cael ei lleihau ynteu ei ddileu. Nodwch amserlen arfaethedig ar gyfer y mesurau lliniaru. |
|---|---|---|
| | • materion seicolegol, fel anawsterau iechyd meddwl, anhwylderau bwyta neu broblemau dicter. | |
| **Ailbennu rhywedd (gweler nodyn 2)** | Niwtral – ni fyddai unrhyw effaith niweidiol ar unrhyw un oherwydd ailbennu rhyw. | Dim effaith. |
| **Statws priodasol** | Niwtral – ni fyddai dim effaith niweidiol ar neb oherwydd ailbennu rhywedd. | Dim effaith. |
| **Beichiogrwydd a mamolaeth** | Niwtral – ni fyddai dim effaith niweidiol ar neb oherwydd statws priodasol. | Dim effaith. |
| **Barn wleidyddol** | Niwtral – ni fyddai dim effaith niweidiol ar neb oherwydd beichiogrwydd a mamolaeth. | Dim effaith. |
| **Pobl â dibynyddion** | Niwtral – ni fyddai dim effaith niweidiol ar unrhyw un oherwydd barn wleidyddol. | Dim effaith. |
| **Pobl heb ddibynyddion** | Niwtral – ni fyddai dim effaith niweidiol ar neb heb ddibynyddion. | Dim effaith. |

| **Nodwedd warchodedig** | **Ydy hi’n debygol o gael effaith benodol ar bobl sydd â'r nodwedd yma?** | **Rhestrwch y mesurau lliniaru a gynigir ar gyfer pob effaith, gan nodi a fydd yr effaith yn cael ei lleihau ynteu ei ddileu. Nodwch amserlen arfaethedig ar gyfer y mesurau lliniaru.** |
|---|---|---|
| **Grwpiau economaidd-gymdeithasol neu ddosbarthiadau cymdeithasol (gweler nodyn 3)** | Niwtral – ni fyddai dim effaith niweidiol ar neb oherwydd grwpiau economaidd-gymdeithasol neu ddosbarthiadau cymdeithasol.<br><br>Mae arolwg aelwydydd Llywodraeth yr Alban yn yr Alban ac 'Exploring the UK's digital divide' yr SYG yn dangos bod gan wahanol grwpiau economaidd-gymdeithasol lefelau gwahanol o ymgysylltu digidol a mynediad at y rhyngrwyd. Gall grwpiau o bobl sydd wedi'u datgysylltu'n ddigidol fod yn debycach o gyflwyno’u cwyn trwy ddulliau anffurfiol neu anstrwythuredig (ebost, post, ffôn) a hepgor gwybodaeth allweddol sy'n gysylltiedig â niwed. Ar y llaw arall, gofynnir i bobl sy'n defnyddio’n ffurflen gwyno ar-lein ddarparu manylion am y niwed a achosir gan y mater diogelu data. Gan mai niwed yw un o'r meini prawf a restrir yn y fframwaith drafft, gellid asesu cwynion sydd heb eu strwythuro yn wahanol i gwynion strwythuredig. | Byddem yn lliniaru ymhellach ar yr effaith a geid ar grwpiau ethnig sydd ag ymgysylltiad digidol cyfyngedig trwy wneud y canlynol:<br><br>• creu fersiwn copi caled o'r ffurflen gwyno ar-lein bresennol. Byddai hyn yn rhoi cyfle i achwynwyr nad ydynt yn ddigidol ddarparu'r un lefel o wybodaeth â phobl sy'n defnyddio ein ffurflen gwyno ar-lein. Byddai'r copi caled ar gael i staff sy'n derbyn cwynion dros ein llinell gymorth, yn ogystal ag i bobl sy'n gofyn am ffurflen copi caled; a<br><br>• sicrhau bod staff yn ystyried y niwed posibl a thebygol a achosir gan y mater diogelu data, yn enwedig pan fo gwybodaeth sy'n gysylltiedig â niwed wedi'i hepgor o'r gŵyn. |

| Nodwedd warchodedig | Ydy hi’n debygol o gael effaith benodol ar bobl sydd â'r nodwedd yma? | Rhestrwch y mesurau lliniaru a gynigir ar gyfer pob effaith, gan nodi a fydd yr effaith yn cael ei lleihau ynteu ei ddileu. Nodwch amserlen arfaethedig ar gyfer y mesurau lliniaru. |
|---|---|---|
| **Nodweddion gwarchodedig lluosog (gweler nodyn 4)** | Niwtral – ni fyddai dim effaith niweidiol ar neb oherwydd nodweddion gwarchodedig lluosog.<br><br>Mae gennyn ni gamau ar waith eisoes i sicrhau hygyrchedd ein proses gwyno i bobl sydd â nodweddion gwarchodedig lluosog. Mae'r camau hyn yn cynnwys:<br>• derbyn cwynion a gyflwynir trwy wahanol sianeli fel ein ffurflen gwyno ar-lein, ebost, post, a dros y ffôn;<br>• derbyn cwynion a gyflwynir gan berson ar ran rhywun arall cyn belled â bod ganddyn nhw’r awdurdod i wneud hynny, er enghraifft cydsyniad neu atwrneiaeth;<br>• cynnig gwasanaeth di-dâl BT, Relay UK, i bobl sy’n fyddar, neu sydd â nam ar eu clyw neu eu lleferydd; | Mae'r holl fesurau liniaru uchod yn berthnasol i'r adran yma. |

| Nodwedd warchodedig | Ydy hi’n debygol o gael effaith benodol ar bobl sydd â'r nodwedd yma? | Rhestrwch y mesurau lliniaru a gynigir ar gyfer pob effaith, gan nodi a fydd yr effaith yn cael ei lleihau ynteu ei ddileu. Nodwch amserlen arfaethedig ar gyfer y mesurau lliniaru. |
|---|---|---|
| | • ystyried gweithredu addasiadau gwasanaeth yn unol â'n cyfrifoldebau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010;<br>• cynnwys cwestiynau dewisol am gymorth neu addasiadau ychwanegol i ni eu gwneud, yn ogystal â niwed a achosir gan y mater diogelu data yn ein ffurflen gwyno;<br>• darparu gwybodaeth am hysbysiad preifatrwydd ar-lein yr ICO, ac o fewn polisïau ar-lein eraill, am hygyrchedd ein proses gwyno a'n gwefan;<br>• defnyddio iaith glir wrth gyfathrebu â phobl yn uniongyrchol, a hefyd gyda'n negeseuon gwefan.<br><br>Byddai'r camau hyn yn dal ar waith o dan y cynigion newydd. | |

*Nodyn 1: efallai yr hoffech hefyd ystyried rhywedd wrth ystyried rhyw, er nad yw rhywedd yn nodwedd warchodedig o dan y Ddeddf Cydraddoldeb nac adran 75 o Ddeddf Gogledd Iwerddon 1998.*

*Nodyn 2: efallai yr hoffech ystyried yr effaith ar bobl drawsryweddol wrth ystyried nodwedd warchodedig ailbennu rhywedd. Mae hyn yn cynnwys os yw'r person yn bwriadu mynd trwy’r broses, wrthi’n mynd trwy’r broses neu wedi mynd trwy’r broses.*

*Nodyn 3: Nid yw grŵp economaidd-gymdeithasol neu ddosbarth cymdeithasol yn nodwedd warchodedig, ond bydden ni’n dal yn hoffi sicrhau ein bod yn ystyried effaith ein gwaith yn y maes yma.*

*Nodyn 4: Mae nodweddion gwarchodedig lluosog yn gyfle i ystyried a oes materion sy'n effeithio ar bobl sydd â'r rhan fwyaf neu'r cyfan o'r nodweddion gwarchodedig, neu lle gall yr un mater greu effeithiau gwahanol ar nodweddion gwahanol (e.e. mae'r un mater yn cael effaith gadarnhaol ar bobl ag un nodwedd warchodedig ond yn cael effaith negyddol ar bobl sydd â nodwedd warchodedig arall).*

C4. Mae gan yr ICO nifer o rwymedigaethau cyfreithiol mewn perthynas â darparu gwasanaethau Cymraeg. Ydy’r gwaith yma yn cael ei gyflwyno yng Nghymru, neu i bobl Cymru, ac os felly, a fydd angen ystyried yr effaith ar y Gymraeg?

| |
|---|
| Ateb: Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effaith. Bydd hyn yn cael ei adolygu. |

*Os byddwch chi'n ateb* ***Ydy neu ddim yn gwybod*** *i'r cwestiwn yma neu os hoffech gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â swyddfa ranbarthol Cymru i drafod y camau nesaf drwy wales@ico.org.uk*

C5. Er budd yr arferion gorau, dylech ystyried a all y gwaith yma gael effaith negyddol ar unrhyw Hawliau Dynol neu'n mynd yn groes i unrhyw Hawliau Dynol. Cliciwch ar y ddolen yma i ddod o hyd i drosolwg o bob un o'r hawliau dynol a rhagor o fanylion am bob un. Mae'r Ddeddf Hawliau Dynol ei hun ar gael ar y ddolen yma. Cadarnhewch eich bod wedi ystyried hyn a nodwch unrhyw gamau y byddwch chi'n eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau.

| |
|---|
| Ateb: Dim effaith ar Hawliau Dynol |

## Cyfrannu at amcanion cydraddoldeb yr ICO

C6. Sut mae'r gwaith yma yn cyfrannu at amcanion cydraddoldeb yr ICO? Esboniwch y cyfraniadau, nodwch ffyrdd y gellid cynyddu’r cyfraniadau, neu rhowch 'dim cyfraniad'.

| Amcan | Cyfraniad at yr amcan |
|---|---|
| Amcan 1: **Byddwn ni’n cynrychioli'r cymunedau a'r cymdeithasau rydyn ni'n eu gwasanaethu**<br><br>Rydyn ni’n credu bod timau amrywiol yn gwneud penderfyniadau gwell, yn rhoi hwb i greadigrwydd ac arloesedd, yn galluogi mwy o dwf proffesiynol ac yn cynyddu’n dealltwriaeth o'r cymunedau rydyn ni'n eu rheoleiddio. Fel gweithlu, rydyn ni ar ein mwyaf effeithiol ac yn cael yr effaith fwyaf pan fyddwn ni’n gynrychioliadol ac yn ystyried gwahanol safbwyntiau. | Mae'r cynnig yn ategu amcanion cydraddoldeb yr ICO trwy sicrhau ein bod yn defnyddio’n hadnoddau i ganolbwyntio ar y cwynion hynny sy'n rhoi cyfle inni wella’r ymdriniaeth â hawliau gwybodaeth ac yn cael effaith o fewn y cymunedau a'r cymdeithasau rydyn ni'n eu gwasanaethu. |
| Amcan 2: **Bydd ein diwylliant yn gynhwysol**<br>Rydyn ni ar ein gorau pan fyddwn ni’n cefnogi ac yn gofalu am ein gilydd, a phan fyddwn ni’n ymddiried ac yn grymuso’n gilydd i fod yn ni’n hunain. Mae hynny'n gymwys boed yn y gweithle ynteu yn y gwaith rydyn ni'n ei wneud.<br><br>Mae gennyn ni fesurau ar waith i gefnogi’n gweithlu amrywiol, megis addasiadau rhesymol. Er hynny, byddwn ni’n gwneud mwy i gael gwared ar y rhwystrau | Byddwn ni’n parhau i fod yn gynhwysol wrth ymdrin â chwynion trwy sicrhau bod gan bob cwsmer fynediad at ein proses gwynion ac eglurder ynghylch y broses honno. Byddwn ni’n rhoi canlyniad eu cwyn i bob achwynydd, gan nodi a ydyn ni’n mynd i ymchwilio ymhellach ai peidio. |

| Amcan | Cyfraniad at yr amcan |
| --- | --- |
| sy'n atal pobl rhag datblygu a symud ymlaen. | |
| Amcan 3: **Byddwn ni'n deall anghenion pawb yn well er mwyn darparu gwasanaethau sy'n hygyrch i bawb**<br><br>Rydyn ni'n targedu'n hymyriadau rheoleiddiol ar y meysydd lle ceir y niwed mwyaf ac er mwyn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pobl. Mae arloesi technolegol gan fusnesau yn golygu bod y dirwedd rydyn ni'n ei reoleiddio yn trawsnewid yn gyson. Rydyn ni'n gwybod ein bod ar ein gorau pan fyddwn ni'n deall anghenion ein holl gwsmeriaid, gan gynnwys y rhai sy'n profi bregusrwydd a chymunedau sydd ag anghenion heb eu hateb. | Mae'r ffurflen gwyno ar-lein wedi'i diwygio i gynnwys cwestiynau dewisol ynghylch:<br><br>• cymorth neu addasiadau ychwanegol sydd eu hangen, a<br>• pha niwed sydd wedi'i achosi gan y mater diogelu data sy'n cael ei godi. |

## Monitro a gwerthuso

C7. Pa drefniadau sydd ar waith, neu a fydd yn cael eu rhoi ar waith, i fonitro a gwerthuso effaith y gwaith ar gydraddoldeb?

| *Ateb:* |
| --- |
| Ar ôl cyflwyno'r dull newydd fe fyddwn ni:<br>• yn cadw'r wybodaeth sy'n dod i law o'r cwynion sy'n cael eu cofnodi;<br>• yn dadansoddi'n proses benderfynu er mwyn pennu a oes angen inni ddiwygio'r broses gwyno;<br>• yn adolygu'r broses gwyno er mwyn pennu a yw'r newid yn y broses wedi effeithio ar gwsmeriaid sydd â nodweddion gwarchodedig. |

C8. Pa mor hir y bydd y trefniadau hyn ar waith?

| |
| --- |
| *Ateb*: Yn barhaus. Mae hwn yn newid parhaol yn y ffordd rydyn ni'n ymdrin â chwynion diogelu data. |

C9. Pryd rydych chi'n bwriadu adolygu'r EqIA? Dylid gwneud hyn fel arfer ar ôl unrhyw newid sy'n cael ei wneud i'r darn gwreiddiol o waith y mae'r EqIA yma yn ymwneud ag ef.

| |
| --- |
| *Ateb*: Bydd adolygiad yn cael ei gynnal bob 12 mis unwaith y bydd y dull newydd wedi'i roi ar waith. |

## Cyhoeddi

C10. Fel y nodwyd uchod ac yn y canllawiau, rydyn ni'n bwriadu cyhoeddi'r holl EqIAs sydd wedi'u cwblhau ar wefan yr ICO. Rhowch fanylion am unrhyw olygiadau angenrheidiol a'r dyddiad cyhoeddi arfaethedig.

Dylech hefyd adolygu'r geiriad i sicrhau ei fod mor glir â phosibl i unrhyw staff neu'r cyhoedd ei ddarllen.

| |
| --- |
| *Ateb: Bydd yr EqIA hwn yn cael ei gyhoeddi nawr ei fod wedi'i adolygu.* |

## Llywodraethu a chymeradwyo

Rhaid i'r person sy'n cwblhau'r ddogfen yma fod yn fodlon bod yr holl faterion cydraddoldeb posibl wedi'u nodi ac wedi'u hystyried, y bydd monitro priodol ar waith a bod y materion cyhoeddi wedi'u hystyried.

Ticiwch yma i gadarnhau eich bod wedi ymgynghori â chydweithwyr eraill a'r rhai y byddai'n effeithio'n bennaf arnyn nhw lle bo hynny'n briodol. ☒

Nodwch yma pwy sydd wedi cwblhau'r EqIA:

| |
|---|
| *Llofnodwyd gan*: CH, AF<br>*Dyddiad:* 27 Ionawr 2026 |

Wedi'i gymeradwyo gan y rheolwr llinell:

| |
|---|
| *Llofnodwyd gan:* HR<br>*Dyddiad:* 27 Ionawr 2026 |

Mae'n **rhaid** ichi anfon eich ffurflen wedi'i chwblhau at corporategovernance@ico.org.uk i'w storio a'i chyhoeddi.

Mae'r Bwrdd EDI yn rhoi sicrwydd cyffredinol bod y broses EqIA yn gweithredu'n effeithiol, ond nid mater iddyn nhw yw adolygu neu gymeradwyo EqIAs.

Os ydych chi wedi nodi unrhyw effeithiau negyddol i unrhyw nodweddion gwarchodedig na allwch eu lliniaru'n llawn, cysylltwch â'r adran Cynhwysiant a Llesiant i gael cyngor drwy inclusionandwellbeingteam@ico.org.uk.

## Adran 75 o Ddeddf Gogledd Iwerddon

Er mwyn bodloni'r gofyniad ynghylch ymgynghori yng Ngogledd Iwerddon yn adran 75, rhaid inni ymgorffori'r canlynol yn ein proses EqIA. Darllenwch drwy'r isod a'i weithredu fel y bo'n briodol wrth gwblhau'ch EqIA.

1. Byddwn ni'n cyhoeddi'n allanol restr o'r holl sgriniadau EqIA y byddwn ni'n eu cwblhau. Dylem gyhoeddi'r rhain yn chwarterol. Bydd y daenlen yn cael ei 'chartrefu' ar wefan yr ICO Equality and diversity | ICO (bydd y rhain yn cynnwys **yr holl** sgriniadau EqIA y byddwn ni'n eu cwblhau)
2. Pan fo sgriniad EqIA yn arwain at yr angen am EqIA llawn ar bolisi, gweithdrefn neu newid sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r ICO yn cyflawni ei swyddogaethau statudol allanol, Byddwn ni'n ymgynghori â'r rhanddeiliaid allweddol cyn gynted â phosibl am 12 wythnos. Yn ôl y gyfraith, mae'n rhaid inni ymgynghori â rhestr rhanddeiliaid Gogledd Iwerddon, ond arfer dda fyddai cynnwys rhanddeiliaid perthnasol eraill o bob rhan o'r Deyrnas Unedig. Yr awdur/rheolwr sy'n cymeradwyo fydd y rhai gorau i benderfynu pwy ddylai'r rhain fod.
3. Rydyn ni wedi egluro, os nad ydym yn cael ymateb gan y rhanddeiliaid hyn i ymgynghoriad, fod hynny'n iawn. Rydyn ni'n cofnodi nad oedd yna ymateb ac yn symud ymlaen â'r polisi, y weithdrefn neu'r newid.
4. Rydyn ni wedi egluro nad oes angen inni ymgynghori o dan adran 75 ar gyfer polisïau sy'n effeithio ar ein staff yn unig. Er ei bod yn arfer dda ymgynghori â staff, undebau llafur etc am newidiadau sy'n effeithio ar gyflogeion, ffyrdd o weithio etc, fyddai'r math yma o newid mewnol ddim yn ymwneud ag adran 75. Dylem wrth gwrs gwblhau EqIA ar y cyfle cynharaf, ond dyw'r gofyniad i ymgynghori o dan adran 75 ddim yn debygol o fod yn gymwys.
5. Rydyn ni wedi cytuno mai mater i'r rheolwr sy'n cymeradwyo'r EqIA yw penderfynu a oes angen ymgynghoriad adran 75. Gall y tîm Cynhwysiant a Lles roi cymorth, ond bydd yr awdur a'r rheolwr yn adnabod eu maes busnes a nhw sydd yn y sefyllfa orau i asesu a yw polisi newydd/newid mewn polisi yn effeithio ar gwsmeriaid a rhanddeiliaid allanol fel rhan o'n swyddogaeth statudol ac felly y dylid ymgynghori â nhw.

6. Rydyn ni wedi cytuno mai mater i'r awdur/rheolwr sy’n cymeradwyo yw anfon y ffurflen sgrinio EqIA neu’r ffurflen EqIA lawn at yr adran llywodraethu corfforaethol.

**Rheolaeth fersiynau EqIA** (i'w diweddaru gan y person sy'n cwblhau'r EqIA)

| | |
|---|---|
| Rhif y fersiwn | 1.1 |
| Statws | Wedi’i gyhoeddi |
| Polisïau perthnasol neu gysylltiedig | Canllawiau ar Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb |
| Awdur/perchennog | CH AF |
| Cymeradwywyd gan | Adnoddau Dynol |
| Dyddiad cymeradwyo | 23 Ionawr 2026 |
| Dyddiad adolygu | 23 Ionawr 2027 - tri mis ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben. |

| Fersiwn | Y newidiadau a wnaed | Dyddiad | Wedi'u gwneud gan |
|---|---|---|---|
| 1.0 | EqIA terfynol i'w gyhoeddi ochr yn ochr ag ymgynghoriad DPT. | 12 Awst 2025 | CH AF |
| 1.1 | Wedi’i ddiwygio ar ôl i'r ymgynghoriad DPT ddod i ben. Wedi’i lofnodi gan Helen Raftery. | 27 Ionawr 2026 | AF |
| | | | |